

Storiau am ffydd a bywyd

Y mae Sophie Whitmarsh, Curad yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, yn cael amser yn ystod y pandemig i wneud rhywbeth yr oedd wastad am wneud



Ers tipyn o amser yr wyf wedi bod yn meddwl am bodlediad; llwyfan lle gallwn drafod y pethau sy'n bwysig i ni fel Cristnogion, mewn awyrgylch ddiogel. Serch hynny, nid oedd gennyf fyth yr amser na'r sgiliau technegol, felly rhoddais y syniad naill ochr. Rhoddodd y pandemig, a arweiniodd at ein cyfyngu yn y cloi, amser i mi weddio, dysgu a dechrau y podlediad. Mae'n syndod beth y gallwch ddysgu ar YouTube os ydych chi'n benderfynol!



Enw'r gyfres yw *Sachliain a Choffi*, sydd fel y gwyddoch rwyn siŵr yn gallu bod yn ddeunydd anghysurus i'w wisgo neu gael nesa at eich croen ac sydd hefyd yn ddeunydd symbolaidd, a ddefnyddid drwy'r Beibl, fel symbol o ostyngedd rwydd o flaen Duw. Y mae coffi yn foethusrwydd i fi ac yn fy atgoffa o amser a dreuliodd gyda ffrindiau. Tra eu bod yn ddau symbol sy'n teimlo'n hollol wahanol, maent yn cwmpasu yr hyn a all fod i

bobl yn storiâu anghysurus, sy'n archwilio sut y mae ffydd wedi gwneud yn eu bywydau, ac ar yr un pryd yn gwneud hynny mewn diogelwch a chysur eu cyfeillgarwch. Y mae'r podlediad yn anelu at adrodd storiâu pobl, eu tystiolaeth a'u profiad o Grist. Y mae adrodd storiâu yn Feiblaidd, adroddodd Iesu ei hun storiâu ac mae'n denu pobl mewn ffordd nad yw'n beryglus, oherwydd y mae storiâu pobl ond yn adlewyrchiadau eu hunain o'u bywydau.

I'r rhai na wrandawodd ar y podlediad eto, mae fel arfer yn cymryd ffurf sgwrs rhyngof fi a gwestai. Hyd yn hyn, mae'r gwesteion hynny wedi cynnwys, o'n Esgobaeth ni, Esgob Joanna, Archddiacon Mones, Parch Shirley Murphy, Parch Delyth Wilson, ac ym mhellach i ffwrdd, Parch John White a Parch Ddr Helen Paynter. Yn fwy diweddar yr wyf wedi cyfweld yr awdur Luke Ayles, ein Nicola Davies ein hun o Neyland, Mike Chant (cyn faer Tŷ Ddewi) a'r Tad Neil Hook o Hwlfordd.

Byddwn wrth fy modd yn clywed eich stori ac i'ch cael ar y podlediad, felly cysylltwch â mi sophie@stdavidscathedral.org.uk neu 07870415378. Gallwch ddod o hyd i'r podlediad ar eich hoff ddarparwyr yn cynnwys Apple, Spotify, Deezer, Google Podcasts, Pandora, Podbean a llawer mwy, gallwch hefyd gael diweddariadau rheolaidd ar Twitter, Facebook, Instagram ac YouTube neu drwy ymweld â'm gwefan: www.revsophie.co.uk